

## REES, DAVID (1801 - 1869), gweinidog gyda'r Annibynwyr, a golygydd



**Enw:** David Rees

**Dyddiad geni:** 1801

**Dyddiad marw:** 1869

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr, a golygydd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd 14 Tachwedd 1801 yn y Gelli-lwyd, plwyf Trelech, Sir Gaerfyrddin. Cafodd y mwyaf o'i addysg yn ifanc ar yr aelwyd a'r ysgol Sul. Treuliodd flynyddoedd ar fferm ei dad. Am y gogwyddai at y weinidogaeth, aeth i ysgol yn Hwlfordd yn 1822; dechreuodd bregethu yn 1823 a threulio tymor byr yn ysgol ramadeg Caerfyrddin yn yr un flwyddyn a mynd i'r ysgol baratoi yn y Drefnewydd; derbyniwyd ef i athrofa'r Annibynwyr yn y dref honno yn 1825.

Ordeiniwyd ef yng Nghapel Als, Llanelli, 5 a 6 Gorffennaf 1829. Daeth yn fuan i fri mawr fel pregethwr a darlithiwr. Meddai ar bersonoliaeth a doniau un wedi ei eni'n arweinydd, digymrodedd ei argyhoeddiadau, a diysgog ei egwyddorion. Yr oedd yn ddinesydd goleuedig a doeth; rhoddes ei fryd yn gynnar ar wasnaethu'i dref a'r wlad. Yr oedd yn ei gynefin gyda materion dirwest, moes, cymdeithas, diwydiant, a chrefydd; etholwyd ef ar y Bwrdd lechyd a Bwrdd y Gwarcheidwaid a phlannodd ddelw ei bersonoliaeth yn drwm ar holl fywyd y dref. Sefydlodd bedair eglwys Annibynnol newydd yn y dref, a daeth yn un o gedym ei enwad.

Gan ei fod wrth natur yn wleidydd a diwygiwr cymdeithasol, amgylchiad arbennig yn hanes Annibyniaeth ac Ymneilltuaeth yn ne Cymru oedd ei benodi'n olygydd cyntaf Y *Diwygiwr*, 1835. Bu ymryson mawr rhyngddo a phleidwyr addysg wirfoddol am y mynnai mai'r wladwriaeth a ddylai ddwyn y draul. Ar wahân i'w weinidogaeth rymus, ei brif gyfraniad i feddwl a bywyd ei gyfnod oedd golygu 'r *Diwygiwr* am 30 mlynedd (1835-65). Ni thalai sylw i glyfrwch gair ac ymadrodd ac ysmaldod gorawenog fel ei wrthwynebydd ' *Brutus* ' yn *Yr Haul*; dychanu a bychanu Anghydfurfiaeth oedd gwaith ' *Brutus* '; amddiffynnai David Rees egwyddorion Anghydfurfiaeth. Drwy'r *Diwygiwr* creodd farn gyhoeddus newydd ar Ymneilltuaeth radicalaidd; yr oedd yn bensaer ac adeiladydd y ffydd Ymneilltuol. Ymneilltuodd o olygyddiaeth Y *Diwygiwr* yn 1865 ac o'r weinidogaeth yn 1868. Bu farw 31 Mawrth 1869.

### Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 470-92

*Cofiant David Rees* (1871), 1871

*Oxford Dictionary of National Biography*, 226

*Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era* (1908)

H. Blackwell, *NLW MS 9271A: A Dictionary of Welsh Biography*

*David Rees, Llanelli Detholion o'i waith* (Caerdydd 1950), 1950

John Innes, *Old Llanelly* (Cardiff 1902)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [David Rees](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [no2016116975](#)

Wikidata: [Q5238958](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Owen, J. D., (1953). REES, DAVID (1801 - 1869), gweinidog gyda'r Annibynwyr, a golygydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-DAV-1801>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Modur gan:  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by:  
Welsh Government